**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-10-01(p.2)**

Dyddiad: 20 Mehefin 2001
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3
Teitl: Recriwtio a Chadw Gweithlu Gofal Cymdeithasol

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried prif themâu ac argymhellion y Grp Gorchwyl a Gorffen ynghylch materion yn ymwneud â gweithlu gofal cymdeithasol a rhoi eu sylwadau ar y prif themâu ac argymhellion hynny.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Gwahoddir y Pwyllgor i wrando ar gyflwyniad y Grp Gorchwyl a Gorffen ynghylch materion yn ymwneud â'r gweithlu, yn amlinellu'r prif themâu ac argymhellion sy'n deillio o'u gwaith.

**Cefndir**

3. Mae gofal cymdeithasol yn un o'r meysydd gwasanaeth pwysicaf yng Nghymru ac mae'n rhan annatod o'r ystod o ofal a ddarperir. Mae amrywiaeth cymhleth o wasanaethau'n helpu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas i allu byw yn y modd mwyaf annibynnol a diogel bosibl. Datblygwyd y gwasanaethau hyn yn ystod y degawd diwethaf er mwyn ymateb yn well i anghenion defnyddwyr a gofalwyr a chael mwy o hyblygrwydd yn y modd y'u darperir. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng ar y naill law ansawdd y gwasanaethau a pha mor ymatebol ydynt, ac ar y llaw arall, ansawdd y gweithlu ac a oes digon ohonynt. Mae'r patrwm yn newid ac mae'r modd y darperir gwasanaethau'n gymhleth, a chanlyniad hynny yw newidiadau mawr yn y gweithlu. Felly mae'r gweithlu'n ganolog i amcanion y Cynulliad o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n gallu ymateb yn effeithiol i anghenion pobl.

4. Ar hyn o bryd, mae dros 70,000 o bobl yn gweithio yn y sector, a chafwyd cynnydd o 16% ym maint y gweithlu dros y 5 mlynedd diwethaf. Rhagwelir twf o 2%-3% bob blwyddyn tan 2006. O'r herwydd, amcangyfrifir y bydd angen 2,000 o staff newydd bob blwyddyn tan hynny.

5. Ers peth amser bellach, mynegwyd pryder am anawsterau recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol ledled Cymru. Er bod hyn yn cael ei bwysleisio mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol sy'n darparu gwasanaeth i blant a theuluoedd, mae'r pryderon hyn yn perthyn i'r holl grwpiau o gleientiaid, ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol a chan gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol fel ei gilydd. Maent yn broblemau dyrys ac amlochrog ac ni ellir eu datrys yn syml nac yn gyflym. Gallant fod yn broblemau lleol, er enghraifft o ganlyniad i gyflogwr newydd o sector arall yn denu gweithwyr a fyddent fel arall o bosibl wedi bod yn weithwyr gofal cymdeithasol, neu'n broblemau mwy eang megis y pryder a fynegir ar hyn o bryd am weithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant. Weithiau, gall problemau godi dros gyfnod byr neu gallant fod wedi ymsefydlu dros gyfnod hwy o amser. Hefyd, gallai awdurdodau penodol brofi anawsterau yn lleol ar adegau arbennig oherwydd amgylchiadau neu bryderon penodol sy'n berthnasol iddynt hwy.

6. Ar ben hynny, cafwyd gostyngiad sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y nifer sy'n gwneud cais am hyfforddiant tuag at gymhwyster mewn gwaith cymdeithasol ledled y DU. Er na chafwyd cymaint o ostyngiad yng Nghymru, serch hynny, mae yn arwyddocaol. Mae angen edrych ar y rhesymau dros hyn a rhoi terfyn ar y tueddiad os ydym am gadw lefel y ddarpariaeth.

7. Mae'n rhaid datblygu strategaeth gynaliadwy yn y tymor hir i ddelio â'r materion anodd a chymhleth hyn. Bydd angen cynnwys nifer o elfennau sy'n gysylltiedig â'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r anawsterau presennol a'i gwneud yn bosibl i gynllunio gweithlu mewn modd cynhwysfawr, yn seiliedig ar gyplysu gofynion adnoddau dynol â'r datblygiadau yn y gwasanaeth.

8. Gall y Cynulliad wneud cyfraniad pwysig i'r gwaith o fynd i'r afael â'r materion hyn trwy hyrwyddo arferion da mewn cyflogaeth a hyfforddiant yn y sector gofal cymdeithasol a thrwy ei gwneud yn haws i ddatblygu trefniadau cydweithio rhwng awdurdodau lleol â'i gilydd, a rhwng awdurdodau â rhai eraill sydd â buddiannau yn y mater, gan gynnwys cyflogwyr preifat a gwirfoddol a darparwyr hyfforddiant a'r rhai sy'n rheoleiddio'r hyfforddiant.

9. Cyhoeddais mewn cyfarfod ar 18 Ionawr eleni fy mod yn sefydlu Grp Gorchwyl a Gorffen arbenigol, dan gadeiryddiaeth Prif Arolygwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, i edrych ar y materion hyn ac adrodd yn ôl ataf, gan roi argymhellion ar gyfer sefydlu fframwaith strategol i fynd i'r afael â'r materion hyn. Pwysleisiais fod yr anawsterau hyn yn gymhleth ac yn aml wedi hen ymsefydlu, ac na ellir eu datrys yn gyflym. Byddai gofyn cael strategaethau tymor hir a fyddai angen cefnogaeth barhaus y Cynulliad a'i bartneriaid.

**Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Grp**

10. Roedd Cylch Gorchwyl y grp yn canolbwyntio ar bum maes penodol:

11. Gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector i ddeall maint a natur y broblem.

12. Datblygu strategaeth ar gyfer gwella proffil, delwedd a dealltwriaeth o'r sector ymysg y cyhoedd.

13. Edrych yn fanwl ar ba mor ymarferol fyddai creu partneriaethau cenedlaethol/lleol ar gyfer recriwtio a datblygu gyrfa mewn gofal cymdeithasol, a allai gynnwys datblygu cynllun ariannu hyfforddeion.

14. Gweithio gyda chyflogwyr ar draws y sector i'w galluogi i ddatblygu polisïau recriwtio a chadw da yn canolbwyntio ar yr adroddiad "Mae Pobl Angen Pobl".

15. Datblygu argymhellion ar gyfer symud ymlaen â'r gwaith o ddiwygio hyfforddiant gwaith cymdeithasol yng nghyd-destun yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Ansawdd, gan gynnwys adolygiad o'r trefniadau ariannu cyfredol.

16. Er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn, roedd yn bwysig bod aelodaeth y grp yn adlewyrchu buddiannau perthnasol yn y maes gan gyfeirio'n benodol at y 5 maes gwaith. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau y gall y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith fanteisio ar rwydweithiau sy'n ymwneud â'r maes sydd o ddiddordeb neilltuol iddynt hwy. Mae eisoes yn amlwg y bydd y rhwydweithiau hyn yn hanfodol ar gyfer symud ymlaen â'r rhaglenni ar gyfer gwaith tymor hir y mae'r grp wedi dechrau eu nodi. Rhestrir aelodau'r grp yn **Atodiad 1.**

**Sut mae gwaith y grp yn symud yn ei flaen**

17. Cefais amlinelliad o waith y Grp a'i argymhellion yn ystod y Pasg cyn cyfarfod â hwy ar 23 Mai i gael eu hargymhellion manwl. Roedd yn gyfarfod positif iawn a dywedais wrth y grp fy mod yn croesawu'u hargymhellion ac yn cydnabod gymaint y maent wedi gallu'i gyflawni mewn cyfnod byr o amser.

18. Rwyf nawr yn croesawu'r cyfle i gyflwyno prif themâu ac argymhellion y grp i'r Pwyllgor. Traddodir y cyflwyniad gan Graham Williams, Prif Arolygwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, fel cadeirydd y grp, cyn eich cwestiynau a'r drafodaeth. Rwyf hefyd yn falch y bydd nifer o aelodau'r grp yn gallu mynychu'r cyfarfod i gymryd rhan yn y drafodaeth honno.

19. Roedd Cylch Gorchwyl y grp yn nodi y byddant yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector er mwyn deall maint a natur y materion a nodwyd yn ymwneud â'r gweithlu. Er mwyn rhoi cyd-destun y cyflwyniad a'r drafodaeth, amgaeaf **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn sy'n rhoi braslun o'r wybodaeth am y gweithlu y bu i Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol/Sefydliad Hyfforddi ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (CCETSW/DTOPSS) ei chasglu at ei gilydd, ac a ddefnyddiwyd gan y grp wrth iddo benderfynu ar natur yr argymhellion.

20. Ar ben hynny, bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod y grp wedi ysgrifennu llythyr agored at y sector, a ddosbarthwyd yn eang trwy gyfrwng amryfal rwydweithiau, yn gwahodd sylwadau a barn. Cafodd y grp ystod eang o ymatebion i'r llythyr, a'u helpodd

i weld sut i ddatblygu'u hargymhellion. Byddant ar gael yn llyfrgell yr Aelodau. Mae copi o'r llythyr yn **Atodiad 3.**

**Cydymffurfio**

21. Sefydlwyd y grp o dan bwerau adrannau 40 a 85 Deddf Llywodraeth Cymru ynghyd â swyddogaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad. Dirprwywyd y pwerau hyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw faterion priodoldeb na chywirdeb.

**Goblygiadau Ariannol**

22. Nid oes goblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Rwyf eisoes wedi cyhoeddi y rhoddwyd £500,000 ar gyfer gweithredu argymhellion y grp yn y flwyddyn ariannol hon. Byddai angen asesu'r arian ar gyfer unrhyw argymhellion tymor hir fel rhan o Gylch Cynllunio Cyllideb a Chorfforaethol y Cynulliad ar gyfer 2001/02.

**Cam Gweithredu**

23. Gofynnir i'r pwyllgor wneud y canlynol:

- gwrando ar y cyflwyniad
- nodi eu bod yn cefnogi'r trywydd a gymerir yn yr argymhellion a wnaeth y grp i mi.